Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# *Bil Amaethyddiaeth (Cymru)*

## *Darparu Coedwigaeth – Diwygio Deddf Coedwigaeth 1967*

Egwyddorion Gweithredu

**Cyflwyniad**

Mae'r canllawiau anstatudol hyn yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) arfer y gyfres fwy cynhwysfawr o bwerau a swyddogaethau i reoleiddio gwaith cwympo coed a roddir iddynt drwy ddiwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 ("Deddf 1967") a fewnosodwyd gan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Mae'r canllaw anstatudol hwn wedi'i ddiweddaru yn sgil newidiadau a wnaed i ddarpariaethau coedigaeth Deddf 2023 ar ei thaith trwy Senedd Cymru ac y mae felly yn cael ei ailgyflwyno i CNC.  Dylid ei ddarllen law yn llaw â'r diwygiadau i Ddeddf 1967 a nodir yn Neddf 2023 a'r Memorandwm Esboniadol.

**Pwerau**

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cynnwys y Ddarpariaeth Coedwigaeth a ganlyn, wedi'i chrynhoi fel a ganlyn:

- diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i ganiatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu amodau at drwyddedau cwympo coed, ac i ganiatáu i drwyddedau gael eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu ar ôl i drwyddedau gael eu rhoi.

Pam bod angen y diwygiadau hyn:

Ar hyn o bryd nid yw Deddf 1967 yn caniatáu ychwanegu amodau i drwyddedau cwympo coed er mwyn sicrhau uniondeb safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau gwarchodedig neu elfennau sensitif eraill o'r amgylchedd.  Gallai hyn arwain at CNC yn caniatáu trwydded cwympo coed a allai gael effaith negyddol ar yr amgylchedd a gallai fynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall megis Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Ar hyn o bryd nid oes gan CNC bwerau i ddiwygio, atal na dirymu trwydded y mae wedi'i rhoi os daw rhywbeth am y gweithgaredd trwyddedig hwnnw yn annerbyniol. Gall hyn godi pan fo newid i berchnogaeth yn arwain at newid amcanion, neu pan fo clefydau yn effeithio ar ddewis rhywogaethau wrth ailstocio. Fodd bynnag, gall hefyd fod oherwydd cyfyngiadau ychwanegol a nodwyd ar ôl i'r drwydded gael ei rhoi megis presenoldeb rhywogaethau gwarchodedig na ystyriwyd. Yn ogystal â hyn, gallai fod yn gysylltiedig â niwed amgylcheddol sy'n codi yn ystod gwaith cwympo coed.

Effaith fwriadedig

Ceisiwyd y pwerau hyn i atal cwympo coed a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall, a galluogi CNC i reoli gwaith cwympo coed trwyddedig yn well a fyddai fel arall yn achosi niwed amgylcheddol. Effaith hyn yn bennaf yw diogelu cynefinoedd a rhywogaethau, a darparu gwarchodaeth rhag niwed amgylcheddol, er y bydd hefyd yn galluogi trwyddedau cwympo coed i gael eu diwygio am resymau eraill fel newid yn amcanion y perchennog. Mae hefyd yn:

- galluogi gorfodi amodau "amgylcheddol" o'r fath o dan Ddeddf 1967;

- helpu Deddf 1967 i gyd-fynd â deddfwriaeth amgylcheddol arall fel Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017;
- galluogi CNC i gyflawni ei ddyletswyddau eraill megis ei ddyletswydd SMNR (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy) a geir yn adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'i ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau a geir yn adran 6 o'r Ddeddf honno;
- galluogi trwyddedu coedwigaeth i gyd-fynd â chyfundrefnau rheoleiddio eraill CNC. Mae hyn yn berthnasol i'r pŵer i ddiwygio, atal a dirymu yn ogystal â'r pŵer i ychwanegu amodau at drwyddedau cwympo coed.

O ystyried ei natur, mae risg o niwed amgylcheddol yn perthyn i waith cwympo coed a allai arwain at orfod derbyn lefel o aflonyddwch amgylcheddol i gydnabod agweddau ymarferol rheoli coetiroedd. Wrth gymhwyso'r pwerau newydd hyn, dylai CNC gymhwyso ei ddyletswydd SMNR o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 er mwyn sicrhau y gall coedwigoedd a choetiroedd barhau i ddarparu ystod o fanteision i ecosystemau sy'n cynnwys cynhyrchu pren yn ogystal â chadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig, a sicrhau eu bod yn ehangu.

Mae’r Alban a Gogledd Iwerddon wedi cymryd pwerau tebyg. Mae strategaeth England Trees yn amlinellu y bydd dyletswyddau a phwerau newydd ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth yn cael eu hystyried, i adlewyrchu’n well gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol coetiroedd.

Mae’r gosb am gwympo coed heb drwydded (fel y darperir ar ei chyfer yn adran 17 o Ddeddf 1967) wedi cynyddu i ddirwy ddiderfyn, yn rhinwedd y ddarpariaeth yn adran 42 o Ddeddf 2023. Mae hyn yn mynd i’r afael â’r anghysondeb sy’n bodoli rhwng y gosb am gwympo coed heb awdurdod trwydded cwympo coed a methu â chydymffurfio â hysbysiad o dan adran 24 o Ddeddf 1967. Ei fwriad yw bod yn erfyn cryfach ar gyfer ddarbwyllo pobl rhag cwympo coed heb awdurdod, gan roi hyblygrwydd i’r llysoedd i osod dirwyon uwch lle bo hynny’n briodol. Mae hyn yn berthnasol i'r pwerau newydd o safbwynt na fydd unrhyw waith cwympo coed sydd wedi digwydd yn groes i amodau amgylcheddol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwympo coed, h.y. ardaloedd sydd wedi'u cwympo neu amseriad gwaith cwympo coed, wedi’i gynnal gydag awdurdod trwydded cwympo coed ac felly byddai’n debygol o fod yn drosedd o dan adran 17. Bydd hyn yn berthnasol hefyd pan fo coed yn cael eu cwympo er bod trwydded cwympo coed wedi ei newid, ei hatal neu ei dirymu o dan hysbysiad a roddwyd o dan adran 24C(3) neu 24E(2) o Ddeddf ddiwygiedig 1967.

Mae trosedd newydd wedi'i hychwanegu at Ddeddf 1967 yn yr adran 24C(10) newydd i alluogi CNC i gymryd camau gorfodi pan fod "y person sy'n gyfrifol" yn methu â chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad a gyflwynir o dan adran 24C(3) e.e. camau cywiro i fynd i'r afael ag achos o dorri amod. Mae gan hyn ddirwy ddiderfyn yn unol â'r adran 24 bresennol o'r Ddeddf. Mae’r adran 24D(5) newydd yn darparu ar gyfer trosoedd debyg mewn perthynas â pherchenogion newydd lle bo hysbysiad 24C(3) sydd wedi’i roi i berchennog blaenorol yn gofyn am gymryd camau na chawsant eu cymryd cyn trosglwyddo perechenogaeth, Rhaid i CNC roi hysbysiad arall i’r perchennog newydd yn unol â’r adran 24D newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod y perchennog newydd yn gwybod am y camau sydd angen eu cymryd

ac yn rhoi’r cyfle iddo eu cymryd, cyn ei fod atebol yn droseddol am beidio â chymryd y camau hynny.

**Datblygu Canllawiau gan CNC**

Gall gorddefnyddio'r pwerau newydd wneud trwyddedau cwympo coed yn rhy feichus i gael eu gweithredu'n ymarferol neu'n ariannol a gallai hynny yn ei dro effeithio ar y ffordd y caiff coetiroedd eu rheoli. Byddai hyn yn andwyol i weithrediad y sector coedwigaeth ac amcan Llywodraeth Cymru i ddod â mwy o goetiroedd dan reolaeth.

Mae Llywodraeth Cymru a CNC wedi ymgysylltu â grŵp o randdeiliaid allweddol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau coedwigaeth, rheoli tir a chadwraeth, a sefydlwyd at y diben o roi mewnbwn i ddatblygiad ac effaith y cynigion bryd hynny i ddiwygio Deddf 1967. Cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch CNC yn gweithredu pwerau.

Mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod yn rhaid i CNC fynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy ddatblygu canllawiau clir ar gyfer ymgeiswyr trwyddedau cwympo coed a chanllawiau mewnol CNC er mwyn sicrhau bod dull cyson a chymesur yn cael ei gymryd i arfer y pwerau newydd. Mae angen i ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau cwympo coed fod yn glir o ran pryd y caiff y pwerau hyn eu defnyddio a'r hyn sy'n ofynnol.  Dylai CNC barhau i gynnwys y grŵp rhanddeiliaid fel y bo'n briodol wrth ddatblygu'r canllawiau.

Y papur cyfarwyddyd anstatudol hwn oedd y sail i bapur "dulliau" CNC a amlinellai sut y bwriadai CNC weithredu'r pwerau hyn fel rhagarweiniad cyn cyflwyno'r canllawiau mewnol ac allanol llawn.

Dylai'r canllawiau anstatudol hyn, fel y maent bellach wedi’u diwygio, nodi hefyd yr egwyddorion o ran sut y bydd CNC yn datblygu'r canllawiau mewnol ac allanol llawn i ymgeiswyr ar sut y byddant yn cymhwyso'r pwerau hyn, y bwriedir iddynt ddod i rym ar 1 Ebrill 2024.

Dylai CNC roi cyfle i Lywodraeth Cymru weld ei bapur "dulliau" cyn gynted â phosibl fel y gall y Llywodraeth sicrhau y bydd y ddeddfwriaeth yn cyflawni ei heffaith fwriadedig. Dylai CNC hefyd roi cyfle i Lywodraeth Cymru weld y canllawiau allanol llawn i ymgeiswyr ac i ddeall y canllawiau mewnol cyn iddynt ddod yn weithredol. Hysbysir unrhyw newidiadau sylweddol yn y dyfodol ar gyfer eu trafod gyda Llywodraeth Cymru cyn iddynt ddod yn weithredol. Yn y ddau achos, gwneir er gwybodaeth er mwyn rhoi amser i Lywodraeth Cymru gynnig sylw os oes angen. Mae CNC wedi ymrwymo i adolygu’r pwerau, y dulliau a’r broses ar ôl 6 mis ac fel rhan o’r Adolygiad ar ôl ei Weithredu ym mlwyddyn 3 ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Dylai CNC sicrhau bod yr holl randdeiliaid, ymgeiswyr trwyddedau cwympo coed a holl staff perthnasol CNC yn ymwybodol o'r canllawiau a'r pwerau newydd cyn iddynt ddod i rym.

Dylid adolygu gweithrediad CNC o'r pwerau o fewn 3 blynedd o gychwyn y pwerau hyn ac yn ôl yr angen wedi hynny, fel rhan o Adolygiad Ôl-weithredu Llywodraeth

Cymru. Dylai CNC a Llywodraeth Cymru gytuno ar gasglu data perthnasol er mwyn monitro effaith y pwerau hyn.

**Gweithredu Pwerau**

Dylai'r papur "dulliau" a'r canllawiau mewnol/allanol ystyried yr egwyddorion canlynol:

*Egwyddor 1* - Mae'r pwerau hyn h.y. i ychwanegu amodau amgylcheddol ac i ddiwygio/atal/dirymu trwydded cwympo coed sydd eisoes wedi'i chaniatáu, i'w defnyddio ar gyfer trwyddedau cwympo coed a roddwyd *ar ôl* i'r pwerau hyn ddod i rym. Ni ellir defnyddio'r gofynion yn ôl-weithredol.

*Egwyddor 2* - Y bwriad yw defnyddio'r pwerau hyn lle mae angen clir i wneud hynny am resymau amgylcheddol. Dylai CNC ystyried a yw defnyddio'r pwerau hyn yn angenrheidiol; yn berthnasol; yn orfodadwy; yn fanwl gywir; ac yn rhesymol ym mhob ystyr arall, a'u bod yn gyson ag Egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus, Cod y Rheoleiddiwr a Safonau Gwasanaeth Rheoleiddio ac Egwyddorion Rheoleiddio CNC. Dylai hyn fod yn unol â holl ddyletswyddau statudol CNC, gan gynnwys:

- ei ddyletswydd cydbwyso o dan adran 1(3A) Deddf Coedwigaeth 1967;
- ei ddyletswydd Pwrpas Cyffredinol (Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy) dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- ei ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- ei ddyletswyddau fel Corff Cadwraeth y DU o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Darpariaethau sy'n ymwneud â phŵer i ychwanegu Amodau Amgylcheddol

Mae'r diwygiadau i adran 10 o Ddeddf 1967 yn galluogi ychwanegu amodau amgylcheddol i drwyddedau cwympo coed yn ogystal â'r amodau presennol sy'n ymwneud ag ailstocio a chynnal a chadw. Mae cymhwyso amodau priodol yn gwasanaethu i amlygu materion penodol i ddeiliad y drwydded cwympo coed ac yn egluro'r hyn y mae CNC yn ei gwneud yn ofynnol i fynd i'r afael â'r materion hynny. Mae hefyd yn galluogi CNC i orfodi'r amodau hynny drwy gyfundrefn y drwydded cwympo coed os nad yw'n cydymffurfio â nhw.

*Egwyddor 3* – Mae Deddf 1967, y rhoddir trwyddedau cwympo coed oddi tani, yn ei gwneud yn ofynnol bod trawsgydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol arall gan gynnwys trwyddedau amgylcheddol a rhywogaethau gwarchodedig. Ailadroddir hyn o dan Safon Coedwigaeth y DU (UKFS). Ni ddylai defnyddio amodau geisio dyblygu neu ddisodli'r gofynion hyn: dylai deiliaid trwydded cwympo coed barhau i gydymffurfio â'r ddau, er y gellid defnyddio amod i dynnu sylw at sensitifrwydd penodol neu niwed posibl, neu gamau angenrheidiol i'w cymryd.

*Egwyddor 4* – Dylai'r canllawiau mewnol ac allanol fod yn eglur ynghylch cwmpas a tharddiad gwybodaeth ategol briodol sydd i'w chyflwyno gyda'r cais am drwydded cwympo coed, gan sicrhau ei bod gymesur ac yn angenrheidiol i'r broses gymeradwyo.

*Egwyddor 5* - Dylai CNC osod amodau amgylcheddol pan fo'n briodol i amddiffyn rhywogaeth neu gynefin penodol neu i fynd i'r afael â phryderon neu sensitifeddau amgylcheddol eraill sydd wedi codi yn ystod y broses ymgeisio. Ni ddylid defnyddio'r pwerau i osod amodau amgylcheddol ond pan fyddant yn briodol neu'n gymesur i'r gweithgareddau y gofynnir am drwydded cwympo ar eu cyfer a dylid eu geirio fel eu bod yn orfodadwy ac yn berthnasol.

*Egwyddor 6* – Dylai CNC ddatblygu dull gweithredu yn seiliedig ar tua 3 'haen' o amodau yn dibynnu ar reidrwydd ac yn gysylltiedig â sensitifrwydd y safle a'r risg bosibl o niwed amgylcheddol. Dylai'r system haenau hon ddarparu dull tryloyw a chyson o gymhwyso amodau amgylcheddol, o fewn Diben Cyffredinol CNC mewn perthynas â SMNR.

*Egwyddor 7* - Rhaid i CNC drafod yr amodau amgylcheddol maen nhw'n bwriadu eu hychwanegu at drwydded cwympo coed gyda'r ymgeisydd ac ystyried unrhyw sylwadau neu gynigion amgen mae'r ymgeisydd yn eu gwneud.

Darpariaethau sy'n ymwneud â phŵer i ddiwygio/atal/dirymu trwyddedau

*Diwygio drwy gytundeb ar y cyd*
Mae adran 10 o Ddeddf 1967 wedi'i diwygio hefyd i alluogi CNC a deiliad y drwydded cwympo coed i gytuno i ddiwygio'r drwydded cwympo coed ar unrhyw adeg. Ceir darpariaeth hefyd yn yr adran 10A newydd lle bo trwydded gwympo sydd i'w diwygio trwy gytundeb yn ymwneud â choed sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed.

Bydd y gallu i newid trwydded cwympo coed trwy gytundeb ar y cyd â deiliad y drwydded yn helpu i fynd i'r afael â newidiadau mewn amcanion, achosion o dramgwyddo'r amodau pan geir cytundeb neu pan fo gwybodaeth ychwanegol wedi dod i'r amlwg ers i'r drwydded gael ei rhoi. Mae'n ei gwneud yn bosibl rhoi'r pwerau hyn ar waith â chyffyrddiad ysgafnach *lle bo hynny'n bosibl,* gan o bosib arbed adnoddau sy'n gysylltiedig â hysbysiadau gorfodi ac apeliadau posibl. Troir at roi hysbysiad pan na fydd cytundeb yn bosibl neu'n briodol.

*Egwyddor 8* - Mae Llywodraeth Cymru yn annog CNC i geisio defnyddio'r ddarpariaeth o dan adran 10(3A) yn y lle cyntaf i ddiwygio'r drwydded cwympo coed drwy gytundeb ar y cyd â deiliad y drwydded lle bo hynny'n gyson ag egwyddorion rheoleiddio a chod y rheoleiddiwr CNC. Dylid defnyddio'r darpariaethau gorfodi pan na fydd cytundeb yn bosib neu'n briodol.

*Egwyddor 9* - dylai CNC ystyried a datblygu canllawiau mewnol ac allanol priodol ar geisiadau am ddiwygiadau gan CNC neu ddeiliad y drwydded cwympo.

*Darpariaethau sy'n ymwneud â niwed amgylcheddol*
Mae adran 24C newydd wedi'i ychwanegu at Ddeddf 1967 i ddarparu ar gyfer amgylchiadau pan fo amodau amgylcheddol yn cael eu torri, a rhoi pwerau i CNC

newid, dileu neu ychwanegu amodau newydd, neu atal neu ddirymu trwydded cwympo coed sydd eisoes wedi ei chaniatáu. Mae adran 24E newydd hefyd wedi'i hychwanegu at Ddeddf 1967 i ddarparu ar gyfer amgylchiadau pan nad yw amodau amgylcheddol wedi eu torri, ond pan fo CNC o'r farn bod cwympo coed yn achosi niwed *sylweddol* i'r amgylchedd, neu'n debygol o wneud hynny. Yn yr amgylchiadau hyn mae'n rhoi pwerau i CNC ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded cwympo coed a oedd eisoes wedi'i chaniatáu.

*Egwyddor 10* - Dylai CNC ystyried a datblygu canllawiau mewnol ac allanol priodol ynghylch pryd y bydd pwerau i ddiwygio, atal neu ddiddymu trwydded cwympo coed yn cael eu defnyddio.

*Egwyddor 11* – Dylai CNC ei gwneud yn ofynnol drwy ddefnyddio amodau priodol y dylai deiliad y drwydded cwympo coed gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod yr holl faterion o ran sensitifrwydd ar sail cyswllt agos hysbys ac addasrwydd cynefinoedd yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf a'u hystyried ymhellach cyn i'r gweithrediadau ddechrau a thra bod y gweithrediadau hynny ar waith. Dylai hyn fod yn gyson ag egwyddorion rheoleiddio CNC, Cod y Rheoleiddiwr a bod yn briodol ac yn gymesur. Dylai CNC fod yn ofalus i osgoi gadael i'r gofyniad hwn fynd yn rhy feichus (Gweler Egwyddor 4).

*Egwyddor 12* - pan fo hysbysiad yn cael ei gyflwyno oherwydd bod amod wedi'i dorri, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod unrhyw gamau a bennir gan CNC i'w cymryd i gywiro hyn wedi eu nodi'n glir, yn rhesymol, yn gymesur ac yn darparu cyswllt clir rhwng y toriad amod a'r camau a bennir.

*Egwyddor 13* – Pan na fydd diwygiad trwy gytundeb ar y cyd yn bosib, dylai CNC barhau i weithio gyda deiliaid trwydded cwympo coed i fynd i'r afael â niwed amgylcheddol trwy bwerau i roi hysbysiad i ddiwygio'r drwydded gwympo coed, gan osgoi defnyddio pwerau i atal neu ddirymu, lle bo modd.

*Egwyddor 14* - Dim ond mewn amgylchiadau *eithriadol* y dylid atal neu ddirymu lle na fyddai diwygio amodau neu'r drwydded cwympo coed yn mynd i'r afael â'r mater; neu ni ellir cytuno arno; neu lle nad oes opsiynau eraill ar gael.

*Egwyddor 15* – Rhywbeth dros dro yw atal ac mae angen dyddiad pryd fydd y cyfnod atal dros dro hwn yn dod i ben. Rhaid i hyd y cyfnod atal fod yn gymesur â'r rheswm dros y gwaharddiad ac unrhyw gamau adferol sydd eu hangen. Does dim disgwyl y bydd ataliad yn fesur tymor hir oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

*Egwyddor 16* – Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl, pan fo deiliad trwydded cwympo coed yn cydymffurfio â'r camau a/neu'r amodau a nodir mewn hysbysiad, bod CNC yn cymryd camau i godi'r ataliad cyn gynted â phosibl oni bai bod cyfiawnhad clir dros ei gadw yn ei le drwy gydol yr hysbysiad.

*Egwyddor 17* - Lle mae trwydded yn cael ei dirymu, rhaid i CNC nodi rhesymau clir pam mai dyma'r unig ffordd sydd ar gael i atal niwed amgylcheddol.

<u>Darpariaethau sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed (TPO)</u>

Mae'r adrannau 10A a 24F newydd wedi'u mewnosod yn Neddf 1967 i ddarparu bod gorfodaeth ar CNC i hysbysu awdurdod lleol y TPO os bydd diwygiadau i drwydded cwympo coed trwy gytundeb ar y cyd neu hysbysiad o dan adran 24C(3) neu adan 24E(2) yn ymwneud â choed sydd â TPO, oni bai bod amodau argyfwng yn gymwys. Os bydd awdurdod lleol y TPO yn gwrthwynebu'r cytundeb neu'r hysbysiad, a bod Gweinidogion Cymru'n cefnogi'r gwrthwynebiad hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru wrthod rhoi eu cydsyniad i roi'r hysbysiad neu i'r diwygiad y cytunir arno. Os bydd Gweinidogion Cymru'n cefnogi rhan yn unig o'r gwrthwynebiad, bydd dal gofyn i Weinidogion Cymru wrthod rhoi'r cydsyniad i roi'r hysbysiad cyfan neu i'r diwygiad y cytunwyd arno. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud eu gorau i nodi'r rhan o'r hysbysiad neu'r diwygiad fydd yn cael ei ddileu er mwyn gallu ailgyhoeddi gweddill yr hysbysiad.

*Egwyddor 18* – Os bydd gwrthwynebiad gan awdurdod lleol y TPO yn ymwneud â rhan yn unig o'r hysbysiad a bod hynny'n arwain at ganslo'r hysbysiad cyfan, bwriad Llywodraeth Cymru yw bod CNC yn ailgyhoeddi hysbysiad diwygiedig yn unol â chanlyniadau'r penderfyniad. Pan fydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu, byddant yn ei gwneud yn glir pa agwedd ar yr apêl sydd wedi'i chynnal a pha ran sydd wedi'i gwrthod er mwyn helpu'r broses hon.

*Egwyddor 19* – Dylai CNC ystyried datblygu canllawiau mewnol i ymdrin ag achosion pan fydd hysbysiad yn ymwneud â choed sy'n destun TPO ac â choed nad ydynt yn destun TPO neu pan fydd rhan yn unig o'r hysbysiad yn ymwneud ag amodau argyfwng.

<u>Darpariaethau sy'n ymwneud ag Apeliadau</u>

Mae Deddf 2023 yn nodi darpariaeth, yn rhinwedd yr adrannau 26A a B newydd yn Neddf 1967, i sichrau bod gan y person cywir sydd wedi'i dramgwyddo resymau dros ddwyn apêl yn erbyn yr hysbysiadau gwahanol sy'n ymwneud â diwygio, atal neu ddirymu yn sgil y pwerau newydd.

Er bod adran 16 o Ddeddf 1967 yn dal i alluogi Gweinidogion i gadarnhau, gwrthdroi neu addasu penderfyniad CNC i fod yn destun apêl mewn perthynas ag amodau neu wrthodiad, mae bellach yn bosibl y gall apêl o dan yr adrannau 26A neu 26B newydd fod yn gysylltiedig ag un rhan o hysbysiad yn unig. Mae'r adran 26(C) newydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd mewn perthynas â hysbysiadau atal, ond ar gyfer pob hysbysiad arall, dim ond y gallu i gadarnhau neu ganslo'r hysbysiad cyfan y mae'r apêl sydd wedi'i dwyn yn ymdrin ag ef sydd gan y Gweinidog.

*Egwyddor 20* – Pan fo apêl yn ymwneud â dim ond rhan o hysbysiad sy'n arwain at ganslo'r holl hysbysiad, mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i CNC ailgyhoeddi hysbysiad addasedig yn unol â chanlyniadau'r apêl. Pan fydd Gweinidog Cymru yn gwneud penderfyniad o'r fath, byddant yn ceisio ei gwneud yn glir pa agwedd o'r apêl sydd wedi'i chadarnhau a pha ran sydd heb er mwyn helpu'r broses hon.

<u>Darpariaethau sy'n ymwneud ag Iawndal</u>
Mae diwygiadau i Ddeddf 1967 yn caniatáu talu iawndal am ddibrisiant yng ngwerth y pren yn sgil rhoi hysbysiad o dan yr adran 24E(2) newydd os caiff trwydded gwympo coed ei diwygio, ei hatal neu ei diddymu oherwydd niwed amgylcheddol sy'n digwydd

heb fod bai ar ddeiliad y drwydded. Mae hyn yn debyg i'r ddarpariaeth sydd eisoes yn Neddf 1967ynghylch talu  iawndal am wrthod trwydded gwympo coed.

Gwneir darpariaethau hefyd yn yr adrannau 26D, 26E a 28F newydd i ganiatáu talu iawndal os caiff hysbysiad a roddwyd i ddiwygio, atal neu ddiddymu trwydded ei ganslo'n ddiweddarach oherwydd apêl lwyddiannus. Gallai'r iawndal gynnwys dibrisiant yng ngwerth y pren a/neu gostau rhesymol a ysgwyddwyd, gan ddibynnu ar y math o hysbysiad sy'n cael ei ganslo. CNC fydd yn talu'r iawndal.

*Egwyddor 21* - Dylai CNC weithio gyda deiliaid trwyddedau cwympo coed, gan ddefnyddio'r gallu i gytuno ar y cyd ar ddiwygiadau i amodau a thrwyddedau cwympo coed, fel a nodir yn adran 10(3A), er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer iawndal ac apeliadau. *(Gweler Egwyddor 8).*

*Egwyddor 22* – Dylai CNC gydweithio â deiliaid trwyddedau cwympo coed a sicrhau y gall roi cyfiawnhad llawn pan fydd yn rhoi hysbysiad o dan yr adrannau 24C, 24D neu 24E newydd i leihau'r risg o apêl lwyddiannus a'r iawndal cysylltiedig.

Nid oes unrhyw sôn yn Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979 ("Rheoliadau 1979") ynghylch y cyfnod pryd y dylid talu hawliadau iawndal sy'n codi yn sgil adran 11 o Ddeddf 1967.  Nid yw'r diwygiadau i Ddeddf 1967 yn sgil Deddf 2023 yn nodi cyfnod rhagnodedig pryd y dylai CNC ddelio â hawliadau iawndal, felly nid oes cynnig i wneud diwygiad cysylltiedig i Reoliadau 1979.

*Egwyddor 23* – Dylai CNC ymdrechu i dalu hawliad dilys am iawndal o fewn 30 diwrnod ar ôl ei dderbyn. Os yw'r hawliad yn gymhleth, dylai CNC geisio datrys y cymhlethdodau a thalu'r hawliad o fewn 6 mis ar ôl derbyn hawliad dilys. I sicrhau tryloywder, dylai CNC lunio canllaw mewnol ac allanol priodol ynghylch yr amserlen, yr hyn a olygir wrth "gostau rhesymol", y dystiolaeth sydd angen ei chyflwyno gyda'r ffurflen berthnasol a'r drefn ar gyfer delio â hawliadau am iawndal o dan y pwerau newydd.

*Darpariaethau sy'n ymwneud â Hysbysiadau Cychwyn*

Mae adran wreiddiol 25 (2) o Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn nodi bod hysbysiadau a gyflwynir o dan adran 24 yn anweithredol hyd nes i'r cyfnod rhagnodedig ddod i ben at ddibenion apêl h.y. 3 mis. Er bod hyn yn weithredadwy mewn perthynas ag ailstocio, ni fyddai'n ymarferol gohirio'r holl hysbysiadau a gyflwynir am beidio â chydymffurfio ag amodau amgylcheddol neu am niwed amgylcheddol annisgwyl am y cyfnod hwn o amser.

Mae'r adran 26C(2) newydd a fewnosodir yn Neddf 1967 yn nodi na ddaw'r hysbysiadau a gyflwynir o dan adrannau 24C(3), 24D(2) neu 24E(2) i rym tan y bydd y cyfnod rhagnodedig ar gyfer apelio wedi mynd heibio. Fodd bynnag, o dan yr adran 26C(3) newydd, caiff hysbysiad ddod yn weithredol ar unwaith os yw CNC yn ystyried bod y ddarpariaeth yn yr hysbysiad yn angenrheidiol i ymateb i risg ar y pryd o niwed difrifol, neu'n atal trwydded gwympo.

Mae'n llai tebygol a fyddai pwerau argyfwng o'r fath yn gymwys i hysbysiad o dan adran 24D(2) os yw'r tir wedi newid dwylo ers yr hysbysiad 24C(3) blaenorol. Fodd

bynnag, mae hi'n bosib bod y sefyllfa yn un argyfyngus am nad yw'r camau yn yr hysbysiad 24C(3) gwreiddiol wedi'u cymryd. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gallai fod yn bosibl delio â'r argyfyngau sy'n codi yn sgil peidio â chydymffurfio ag adran 24C(3) os yw'r tir wedi newid dwylo ers hynny trwy ddarpariaethau eraill fel yr adran 24C(9) newydd neu o bosib, yr adran 48 bresennol, sy'n rhoi pŵer cyffredinol i fynd ar dir er mwyn i CNC allu arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf 1967.

Os caiff adran 26C(3) ei chymhwyso'n rhy frwd mewn perthynas â hysbysiadau o dan adrannau 24C, D neu E, gyda CNC yn penderfynu bod y sefyllfa'n argyfwng a bod yr hysbysiad i ddod i rym ar unwaith, gallai hynny gynyddu'r posibilrwydd, os cyflwynir apeliadau o fewn y cyfnod rhagnodedig ar ôl cychwyn yr hysbysiadau, y byddai hawliadau am iawndal yn llwyddiannus.

Dylai CNC sicrhau os yw'n cadarnhau bod y sefyllfa'n bodloni'r meini prawf argyfwng a'i fod yn bwriadu dibynnu ar y pŵer o dan adran 26C(3), ei fod yn gallu cyfiawnhau ei benderfyniad a'i fod yn ei gofnodi.

*Egwyddor 24* - Dylai CNC ystyried a datblygu canllawiau mewnol ac allanol priodol ar gyfer achosion lle gallai farnu bod y rhesymau yn yr adran 26C(3) newydd yn gymwys a lle byddai'n dibynnu ar y meini prawf argyfwng hyn, cyn belled na fyddai'r cyfnod rhagnodedig yn gymwys. Byddai hynny'n sicrhau bod cyfiawnhad llwyr dros ddibynnu ar y meini prawf argyfwng ac felly y gellid osgoi apeliadau posibl diangen a'r iawndal cysylltiedig.

Y Gangen Polisi Adnoddau Coedwigoedd,
Yr Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth,
Llywodraeth Cymru